

Bwletin yr Awdurdod - Hydref 2001

CYFARFOD AGORED

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 27 Medi 2001, yn y Ganolfan Gelfyddydau ym Mhorthmadog lle bu oddeutu 35 o'r cyhoedd yn bresennol.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd yn y cyfarfod oedd:

Nôd S4C

Holwyd beth oedd nod S4C. Atebodd Elan Closs Stephens taw'r nod sylfaenol oedd darparu rhaglenni Cymraeg o ansawdd uchel ac o ddifyrrwch i wahanol gynulleidfaoedd yng Nghymru. Roedd yna is-nodau hefyd, er enghraifft, darparu gwaith yn yr economi lleol ac i gyfrannu i'r byd teledu Prydeinig a rhyngwladol. Ychwanegodd Huw Jones fod nod ffurfiol S4C wedi'i osod gan ddeddf gwlad, yn wreiddiol gan Deddf Ddarlledu 1982 ac wedi'i gadarnhau gan ddeddfau darlledu wedi hynny. Mae'r deddfau hynny yn dweud mai swyddogaeth S4C yw i ddarparu gwasanaeth teledu o safon uchel gyda'r mwyafrif o'r rhaglenni yn yr oriau brig yn rhaglenni Cymraeg. Roedd y ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar S4C i adlewyrchu cymaint ag y gall o arlwy Channel 4.

Saesneg o fewn rhaglenni Cymraeg S4C

Codwyd y pwynt fod yna lawer gormod o Saesneg o fewn rhaglenni S4C. Atebodd Huw Jones fod yna lawer iawn o drafodaeth wedi bod yn S4C ar y mater hwn a bod gan y Sianel ganllawiau ar gyfer cynhyrchwyr. Roedd y canllawiau hynny yn dweud bod yn rhaid fod yna resymau golygyddol cryf a dilys am gynnwys Saesneg o fewn rhaglen Gymraeg. Er hynny, yr oedd yna weithiau gwahaniaeth barn ynglyn â beth ellid ei gyfiawnhau. Holwyd pam nad oedd yna fwy o drosleisio yn cael ei gyflwyno. Atebodd Huw Jones mae safbwynt S4C oedd fod mwyafrif llethol ei gwylwyr yn deall Saesneg a phan fo rhywbeth yn werth ei ddweud yr oedd pobl yn dymuno ei glywed yn ei iaith wreiddiol. Roedd hyn yn sefyllfa gwbl unigryw i S4C i gymharu ag unrhyw sianel mewn gwlad arall. Er hynny, roedd y sefyllfa hon yn golygu bod yna gyfrifoldeb ar gynhyrchwyr i ddod o hyd i ffyrdd o gyfyngu ar y defnydd o Saesneg neu fe allai'r athroniaeth hyn arwain at ymestyniad ac ehangiad ddiben draw o'r Saesneg. Ychwanegodd Elan Closs Stephens fod gan S4C drefn lle mae ei holl raglenni Cymraeg yn cael eu monitro yn erbyn canllawiau cydymffurfiaeth sy'n cynnwys canllawiau iaith a bod y Sianel yn gallu mesur faint o Saesneg sy'n cael ei ddarlledu.

Aeth aelod o'r gynulleidfa yn ôl at bwynt Huw Jones ynglyn â'r ffaith bod pobl Gymreig yn deall Saesneg. Teimlwyd bod hyn yn safbwynt peryglus iawn yng Nghymru, yn enwedig mewn cymunedau Cymraeg yng Ngwynedd lle'r oedd pobl di-Gymraeg yn dod i mewn i'r cymunedau ac yn disgwyl i'r Cymry Cymraeg droi yn awtomatig i'r Saesneg. Roedd sefyllfa'r Gymraeg yn fregus iawn. Teimlwyd fod y Saesneg o amgylch drwy'r amser, a'r peth lleiaf gallai S4C ei wneud oedd darparu gwasanaeth Cymraeg glan, syml a chywir i bawb. Cydnabuoedd Huw Jones yr hyn a ddywedwyd ond rhoddodd fel esiampl pa bai Rob Howley, Capten tîm Cymru, yn cael yn cael ei gyfweid ar *Y Clwb Rygbi* byddai gwylwyr am ei glywed yn defnyddio'i eiriau ei hun ac awgrymwyd taw'r deilema oedd i daro'r cydbwysedd iawn rhwng pryd y dylid caniatáu y defnydd o Saesneg heb newid natur rhaglen oedd i fod yn rhaglen Gymraeg.

Safon Rhaglenni

Mynegwyd y farn mai ychydig iawn oedd y rhaglenni safonol ar S4C. Tra roedd ambell raglen dda fel rhaglen John Ogwen ar y chwarel, prin iawn oeddynt. Holwyd pam nad oedd yna fwy o raglenni addysgiadol, hanesyddol a natur. Hefyd teimlwyd bod yna gormod o bwyslais ar raglenni i bobl ifanc i gymharu â rhaglenni yn addas i bawb fel *Fo a Fe a Teulu'r Mans*. Atebodd Huw Jones ei bod hi'n dasg anodd i gadw y ddisgl yn wastad rhwng chwaeth pob gwylwr. Rhoddwyd yr enghraifft fod rhaglenni fel *Amdani* a *Ffondu*, *Rhyw a Deinasors* yn cael eu gweld yn chwithig iawn gan rai gwylwyr, tra eu bod yn plesio'n fawr gwylwyr eraill. Hefyd roedd chwaeth yn newid wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau ac nid oedd yr oedd hyn yn boblogaidd ugain mlynedd un ôl yn plesio criw iau yn yr un modd heddiw. Aeth Huw Jones ymlaen er hynny i awgrymu nifer o raglenni yn y flwyddyn i ddod a fyddai efallai yn apelio at y rheiny yn y gynulleidfa, rhaglenni megis yr *Ystafell Ddirgel*, *Rhys Lewis*, *Talcen Caled* ac ati.

Teimlwyd hefyd bod llawer o raglenni wedi'u lleoli yng Ngwynedd neu yn ardal Llanelli neu Gaerdydd ond roedd angen rhaglenni oedd yn dod â rhywbeth o bob ardal yng Nghymru, trwy fynd i ardaloedd fel Treffynnon neu Sir Frycheiniog. Derbyniodd Huw Eirug y feirniadaeth hon ac ychwanegodd bod S4C ei hun wedi bod yn ymwybodol o hyn. Fel canlyniad i geisio wneud rhywbeth am y sefyllfa fe fyddai cyfres newydd ym mis Ionawr yn ymweld â gwahanol ardaloedd Cymru; rhaglen nosweithiol fyddai yn cyfleu storïau a phersonoliaethau o wahanol ardoedd.

Barn arall a fynegwyd oedd bod yna ormod o gopïo rhaglenni sydd wedi ymddangos ar sianelau eraill, boed yn Americanaidd neu yn Saesneg, ac oni ddylid cael mwy o wreiddioldeb yng nghyd-destun Cymru a'r bywyd o'i chwmpas. Cytunodd Huw Eirug â hyn ac roedd o'r farn mai rhaglenni gorau S4C, sef y rhaglenni oedd yn profi'n fwyaf poblogaidd oedd y rheiny wedi'u gwreiddio yn nhir Cymru. Cydnabuoedd bod yna gyfnod lle y bwriad oedd i geisio efelychu rhaglenni yn boblogaidd yn Saesneg ond credwyd bellach mai cryfder darlledwr fel S4C yw ei hunaniaeth a rhaid gweithio ar hynny a chasglu'r rhaglenni yna at ei gilydd. Roedd hefyd yn golygu bod y dasg yn anoddach oherwydd y ffaith syml oedd ei bod yn llawer haws i gopïo neu gymryd ysbrydoliaeth oddi wrth syniad oedd yn bodoli eisoes;

roedd yn llawer iawn anoddach i gael syniadau gwreiddiol a rheiny'n rhai sydd yn llwyddo i ddenu ac i roi boddhad i gynulleidfa.

Brass Eye

Cyfeiriodd aelod o'r gynulleidfa at raglen *Brass Eye* a ddarledwyd diwedd mis Gorffennaf gan fynegi'r farn ei bod hi'n rhaglen warthus. Holwyd onid oedd wedi'i darlledu gan Channel 4 cyn S4C ac onid oedd rhywun yn S4C wedi'i gweld hi cyn iddi fynd allan. Atebodd Elan Closs Stephens bod y rhaglen hon wedi'i darlledu ar yr un pryd ar Channel 4 a S4C ond er ei bod yn hapus i glywed yr hyn yr oedd gan y gynulleidfa i ddweud am y rhaglen, nid oedd hi am fynegi barn ar y noson gan fod hyn yn fater oedd yn dod gerbron yr Awdurdod yn ei gyfarfod y diwrnod canlynol (gweler penderfyniad yr Awdurdod isod).

Comedi

Holwyd beth fyddai gan S4C i'w gynnig o ran rhaglenni i wneud i'w chynulleidfa chwerthin. Cyfeiriwyd eto at raglenni megis *Fo a Fe* a hefyd *C'mon Midffild* a holwyd os oedd yna raglenni o'r safon hyn i ddod. Atebodd Huw Eirug y byddai yna gyfresi newydd yn cael eu darlledu y flwyddyn nesaf a'i obaith oedd y byddai'r rhain yn gwneud i bobl chwerthin. Cydnabyddodd bod S4C wedi methu sawl tro yn y maes hwn ond roedd y Sianel yn dal ati bob amser i chwilio am gyfresi llwyddiannus. Ychwanegodd er hynny mai ysgrifennu comedi oedd y grefft anoddaf mewn teledu oherwydd wrth wneud comedi dim ond un llinyn mesur sydd a hynny yw a ydyw yn gwneud ichi chwerthin neu beidio. Rhaid oedd cydnabod nad oedd yna ddigon o ysgrifenyddyr sy'n gallu ysgrifennu comedi a rhaid oedd i'r Sianel eu meithrin nhw a rhoi cyfleoedd iddynt. Wedi dweud hyn, roedd yr un problem yn bodoli yn Lloegr ac ar draws Ewrop, dyna pam yr oedd *Friends* yn ymddangos ym mhob man ar amserlenni oherwydd nad oedd gan gwledydd eraill gomedïau i'w rhoi yn ei le.

Pobol y Cwm

Lleisiwyd y farn bod safon yr iaith ar *Pobol y Cwm* yn annerbyniol. Rhoddwyd esiamplau o'r defnydd o ymadroddion fel "dwi byth wedi bod" a "na fi hefyd". Holwyd os oedd golygyddion sgript yn taro golwg dros bethau fel hyn. Teimlwyd os oedd pethau fel hyn yn cael eu caniatáu fe fyddai pobl sydd yn dysgu neu yn ansicr o'u Cymraeg yn eu clywed a'u defnyddio. Tra'n cydnabod y sylwadau a wnaethpwyd awgrymwyd bod yna rai pethau wrth gwrs oedd yn dafodiaethol gywir mewn rhai ardaloedd ond nid mewn ardaloedd eraill. Rhoddwyd yr enghraifft y byddai "sai byth 'di bod" yn debyg o fod yn dderbyniol yn y De Orllewin, tra na fyddai'n dderbyniol yn iaith y Gogledd.

Chwaraeon

Teimlwyd bod yna llawer gormod o chwaraeon ar deledu yn gyffredinol, gan gynnwys S4C, ac yn benodol trafodwyd y sefyllfa parthed y criced. Cyfeiriodd Huw Eirug yn ôl at gyfrifoldeb S4C i gynnig y gorau o raglenni Channel 4 a dywedodd mai yn y bôn dyma

paham yr oedd S4C yn dangos y criced. Tra'n derbyn y feirniadaeth fod yna gryn dipyn o chwaraeon ar deledu ni wyddai beth oedd yr ateb i'r rheiny nad oeddynt yn mwynhau rhaglenni o'r fath heblaw eu cyfeirio at wasanaeth digidol S4C.

S4C a'r Iaith Gymraeg

Credwyd bod yna ddyletswydd ar S4C i rhoi raglenni i blant bychan. Roedd pryder ynglyn â'r iaith yn marw a roedd plant bach yn bwysig i ddyfodol yr iaith ac yn wir i ddyfodol S4C. Gwelwyd fod yna ddyletswydd ar S4C i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Roedd y teledu yn cyrraedd cartrefi pawb: tai Seisnig, cartrefi lle'r oedd plant yn dysgu Cymraeg a hefyd i mewn i ysgolion ac roedd gan S4C rôl bwysig iawn i'w chwarae yn nyfodol y Gymraeg.

Ychwanegodd person arall ei bod yn dymuno dweud yng nghanol y feirniadaeth ynglyn â rhaglenni S4C ei bod yn goblyn o falch bod y Sianel yn bodoli. Tra roedd yna le i wella, roedd yn falch iawn o'r Sianel ac edrychai ymlaen at y diwrnod pan fyddai'n rhydd o raglenni Channel 4. Trwy ddiolch am y sylwadau tynnodd Huw Jones sylw hefyd at y ffaith bod S4C, trwy loeren ddigidol wedi bod ar gael yn Lloegr a'r Alban am y ddwy flynedd diwethaf a bod y Sianel wedi derbyn llythyrau gan Gymry Cymraeg yn byw yn y manau hyn, rhai ohonynt efallai am ryw chwarter canrif, oedd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr iawn.

Teledu Digidol

Awgrymwyd bod yna lawer o arian yn cael ei dreulio ar ddigidol ar draul y gwasanaeth analog. Atebodd Huw Jones fod y gwariant ar ddigidol yn cael ei reoli'n go dyn ac nid oedd yn fwy na 10% o'r cyfanswm. Ychwanegodd Elan Closs Stephens bod yn rhaid cofio ei bod yn bosibl mai dim ond gwasanaeth digidol fydd rhywbryd rhwng 2006 a 2010 (er nad oedd y Llywodraeth wedi pennu dyddiad penodol ar gyfer diffodd analog) ac fe fyddai'r Sianel fel estrys a'i phen yn y tywod pe bai ddim yn cymryd camau i ddatblygu gwasanaeth digidol ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Wrth ymateb i sylwad mai prin iawn o bobl, o leiaf yng nghylch Porthmadog, oedd â theledu digidol, cyfeiriodd Elan Closs Stephens at y ffaith nad oedd rhywun yn gorfod tanysgrifio i Sky neu i ONdigital er mwyn derbyn y gwasanaeth. Gellid prynu bocs ben teledu am £100 ac yna gellir derbyn S4C, BBC News 24, ac ati, yn rhad ac am ddim.

Mynegodd aelod arall o'r gynulleidfa ddymuniad i dderbyn teledu digidol ond roedd y ffaith ei bod yn byw mewn ty wedi'i restru gan CADW yn golygu na allai gael soser lloeren ar y wal. Deallwyd bod eraill yn gallu derbyn gwasanaeth trwy gebl. Holwyd oni ddylid roi blaenoriaeth i addasu'r trosglwyddyddion mewn ardaloedd gwledig yn gyntaf. Diolchodd Huw Jones am yr enghraifft hon. Dywedodd y byddai addasu pob trosglwyddydd yng Nghymru lle'r oedd y mwyafrif llethol ohonynt mewn ardaloedd gwledig (wrth reswm oherwydd y bryniau a'r mynyddoedd a'r angen am 'relays') yn costio swm sylweddol o arian. Roedd rhai yn credu mai gwaith y darlledwyr oedd hi i dalu am hyn. Roedd y darlledwyr yn teimlo fod talu am hyn yn golygu na fyddai yna arian wedyn ar gael i wario ar raglenni. Ym

marn y darlledwyr, y Llywodraeth ddylai talu os oedd yn dymuno gweld digidol ar gael i bawb yn ddiwahân neu ffordd arall fe fyddai yna bobl na fyddai'n gallu derbyn digidol.

CYFARFOD BUSNES

Aelodau'r Awdurdod

Adroddwyd bod yr argymhelliad ar gyfer y ddau Aelod newydd bellach wedi cyrraedd swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac yn aros am ei sêl bendith.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

Adroddwyd bod y derbyniad a gynhaliodd S4C yn yr Eisteddfod wedi bod yn llwyddiannus iawn

Cyngor Safonau Darlledu

Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn ateb i'w llythyr at y Cyngor Safonau Darlledu. Ynndo dywedwyd ei bod hi'n fwriad i benodi aelod o Gymru i'r Cyngor

Adroddiad yr 'Audio-Visual Industries Training Group' -

Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr adroddiad 'Skills for Tomorrow's Media' a lanswyd gan Dr Kim Howells, y Gweinidog dros Twristiaeth, Ffilm a Darlledu, ar ddechrau'r mis yn Llundain. Adroddwyd bod y Prif Weithredwr wedi bod yn aelod o'r corff a gynhyrchodd y ddogfen a oedd yn un cynhwysfawr a manwl. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod Roger Laughton, Cadeirydd y Grwp, wedi mynegi ei ddiolchiadau i Huw Jones am ei gyfraniad mawr i'r broses.

Adroddiad Blynyddol y CCG (Teledu Gaeleg yn yr Alban)

Tynnodd y Cadeirydd sylw at Adroddiad Blynyddol y CCG a chyfeiriodd at y ffaith bod John Angus MacKay wedi ysgrifennu ati i ddweud y byddai ef ac Aelodau'r CCG yn dymuno dod i Gaerdydd i gyfarfod â'r Awdurdod.

Cynadleddau Gwleidyddol

Adroddwyd bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol wedi mynychu'r cinio gynhaliodd S4C yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol yn Bournemouth. Bu'n ddigwyddiad llwyddiannus a buddiol lle'r oedd dau Aelod Seneddol a dau Aelod o'r Cynulliad yn bresennol yn ogystal ag aelodau eraill o'r Blaid. Cyfeiriwyd, er hynny, bod y digwyddiadau oedd i'w cynnal yng nghynadleddau'r Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol wedi'u canslo oherwydd y newidiadau i drefniadau'r pleidiau yn sgil y drychineb yn America

Ymweliad Chris Bryant, AS, â S4C

Adroddwyd bod ymweliad Chris Bryant, AS, sy'n aelod o'r Pwyllgor Dethol Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, wedi bod yn un da a buddiol.

Y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) a'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru

Adroddodd y Cadeirydd er gwybodaeth ei bod hi newydd ei gwneud yn aelod o'r BFI a hefyd wedi'i gwneud yn aelod o'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru

Trychineb Efrog Newydd

Nodwyd bod y drychineb wedi codi cwestiynau i S4C o safbwynt gallu'r Sianel i ymateb yn llawn i ddiwyddiadau o'r math hyn yn absenoldeb gwasanaeth newyddion ei hun. Roedd angen ystyried swyddogaeth S4C ar gyfer y dyfodol yn enwedig pan dim ond sianel ddigidol fydd. Byddai S4C yn methu yn ei chyfrifoldebau os na fyddai'n gallu ymateb a darparu'r un fath o wasanaeth â phob darlledwr arall. Roedd angen ystyried y ddarpariaeth o wasanaeth newyddion ymhellach.

Achos Llys

Cyfeiriwyd at y sefyllfa lle'r oedd John Owen, awdur a chyfarwyddwr *Pam fi Duw?*, wedi'i gyhuddo o gamdrin plant a phobl ifanc tra'r oedd yn athro yn Ysgol Rhydfelen rhwng 1974 a 1991. Esboniwyd yr agweddau o'r mater roedd angen i S4C a HTV eu hystyried fel canlyniad a'r camau oedd wedi'u cymryd hyd yma yn sgil hyn. Wedi clywed y modd yr oedd y Sianel wedi ymateb i'r newyddion am y cyhuddiad yn erbyn John Owen, teimlodd yr Awdurdod bod y swyddogion wedi delio â'r mater mewn ffordd gywir.

Cynhadledd Darlledwyr Cyhoeddus, Toronto

Adroddodd y Prif Weithredwr ar lafar ar gynhadledd ddarlledwyr cyhoeddus fynychodd yn Toronto. Roedd hon yn gynhadledd oedd yn digwydd yn flynyddol ac yn gynhadledd amserol yn sgil y trychineb yn America. Cynhaliwyd un sesiwn i drafod y modd y gwnaeth ddarlledwyr ymateb i'r drychineb. Roedd yna gyfraniad trawiadol hefyd oddi wrth ddarlledwr o Algeria ac yn ystod ei araith fe bwysleisiodd nad oedd gan pob darlledwr rhyddid darlledu, dylai'r rheiny oedd â'r 'frait' hynny wneud y gorau ohoni. Wedi clywed adroddiad y Prif Weithredwr ar y gynhadledd, trafododd yr Awdurdod y modd yr oedd y newyddion ar faterion rhyngwladol, Prydeinig a Chymreig, yn cael ei gyfleu ar S4C a'r cyfryngau eraill yn gyffredinol.

Nawdd

Adroddodd y Prif Weithredwr ar lafar ar gais am nawdd a dderbyniwyd gan Gôr Pendyrus a oedd yn ceisio sefydlu cronf ar gyfer ysgoloriaeth i alluogi rhywun o Gymru i ddilyn cwrs arwain côr. Cytunwyd y dylid rhoi nawdd o £2,000 tuag at yr ysgoloriaeth.

Cais S4C i'r DCMS am Arian

Cytunodd yr Awdurdod ar adroddiad i'w gyflwyno i'r DCMS fel rhan o gais S4C am gyllid ychwanegol.

Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni

Derbyniwyd yr adroddiad ar y gwasanaeth rhaglenni. Nodwyd yn arbennig y newidiadau i'r amserlen yn sgil y digwyddiadau yn America. Nodwyd hefyd y gymhariaeth rhwng ffigurau gwyllo *Pobol y Cwm* yn 1999, 2000 a 2001 a'r dirywiad o ran cyfran a miloedd yn gwyllo. Roedd perfformiad *Pobol y Cwm* yn fater o bryder ac yn fater i drafod ymhellach gyda'r BBC.

Brass Eye Special: Paedophilia

Trafodwyd adroddiad a ofynnodd i'r Aelodau ystyried beth ddylai ymateb yr Awdurdod fod i ddarllediad y rhaglen *Brass Eye Special: Paedophilia* (rhaglen Channel 4) a ddarlledwyd ar S4C am 22.35 ar 26 Gorffennaf 2001. Rhoddodd yr adroddiad fanylion cwynion wedi'i derbyn gan Wifren Gwylwyr S4C, ynghyd ag amlinelliad o ymateb y rheoleiddwyr eraill ym Mhrydain a hefyd gopi o ymateb Channel 4. Roedd yr Aelodau hefyd wedi gwyllo tâp o'r rhaglen cyn y cyfarfod. Ystyriodd yr Aelodau yn ofalus y gwahanol safbwyntiau a sylwadau wedi'u gwneud a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r rhybudd a roddwyd o flaen llaw gan y cyflwynydd.

Cytunwyd:

- (a) bod hi'n bwysig i raglenni heriol fel y rhaglen dan sylw gael eu cynhyrchu a'u darlledu. Roedd hon yn rhaglen gryf ac annifyr ond yn rhaglen bwysig. Tra'n anesmwyth i'w gwyllo roedd rhaglen fel hon yn gallu ymestyn dealltwriaeth gwylwyr ar bwnc anodd a sensitif. Roedd *Brass Eye Special: Paedophilia* felly yn rhaglen yr oedd yn addas i S4C ei darlledu.
- (b) bod y rhybudd a roddwyd gan y cyflwynydd cyn y rhaglen yn ddigonol. Er hynny - o ystyried pwysigrwydd cael rhybudd priodol a digonol o flaen y fath raglen - dylai swyddogion S4C sicrhau bod yr wybodaeth yr oeddynt yn derbyn oddi wrth Channel 4 ynglyn â chynnwys ei raglenni yn ddigon manwl. Fe fyddai hyn yn caniatáu i S4C

fedru asesu'n well ar gyfer ei gwylwyr hi a oedd angen darlledu rhybuddion manylach am natur cynnwys rhaglenni fel hyn yn y dyfodol.

Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth

Derbyniwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2001. Rhoddwyd sylw i ddau beth penodol:

(a) Y rhaglen *Taro Naw* a ddarledwyd ar 30 Ebril 2001 –

(i) Yn ystod y rhifyn arbennig hwn o *Taro Naw* rhoddwyd sylw helaeth i ddyn oedd yn esbonio'n fanwl nifer o enghreifftiau lle'r oedd wedi defnyddio dulliau twyllodrus i ddod o hyd i nwyddau neu arian. Pryder y Grwp oedd y gallai'r manylion a gyflwynwyd yn ystod y rhaglen gynorthwyo'n anfwriadol pobl sydd â thueddiadau troseddol. Cyflwynwyd i'r Awdurdod ymateb y BBC i sylwadau'r Grwp a gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu a oedd y canllawiau cydymffurfiaeth wedi'u torri.

(ii) **Cytunwyd:** Er iddi ymddangos fod y BBC heb ofyn am gyngor gan yr heddlu wrth gynhyrchu'r rhaglen, yr oedd y ffaith bod cyngor cyfreithiol oddi wrth gyfreithiwr mewnol y BBC wedi'i gymryd trwy gydol y broses ac ar gyfer y rhaglen derfynol yn ddigonol yn yr achos hwn.

(b) Adroddiad ar ddarlledu Etholiad San Steffan 2001 ar raglenni Cymraeg S4C – Ystyriwyd yr adroddiad wedi'i baratoi gan yr Uned Fonitro. Nodwyd nad oedd yna unrhyw beth i beri gofid o safbwynt cydbwysedd gwleidyddol.

Materion Eraill

Nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 18 Medi 2001
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil – Perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Chwarterol Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol
- Amserlen Cyfarfodydd Awdurdod S4C yn 2002
- Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 27 Gorffennaf 2001